

# DYLAN BRYN Cyf

---

## Trigolion pentref Llanaelhaearn

**28 Mehefin 2012**

Annwyl gyfeillion,

Mae Antur Aelhaearn wedi ein penodi i baratoi Cynllun Busnes ar gyfer adnewyddu a datblygu Capel Babell, Llanaelhaearn. Rydym felly yn awyddus i gasglu eich barn chi fel trigolion y pentref ynglŷn â gwneud y defnydd gorau posibl o'r adeilad. Gallwch chi wneud hynny trwy gwblhau'r holiadur sydd hefo'r llythyr hwn (hefyd ar gael ar safle gwe [www.llanaelhaearn.com](http://www.llanaelhaearn.com)). Yn ychwanegol byddwn yn cynnal sesiwn galw i fewn yng Nghapel Babell rhwng 3 ac 8pm Nos Fawrth 17 Gorffennaf er mwyn i chi allu rhannu a thrafod eich syniadau yn unigol hefo ni. Bydd rhai o aelodau Antur Aelhaearn hefyd yn bresennol i drafod syniadau hefo chi.

Byddwn yn parchu cyfrinachedd pob holiadur a gwblheir, nac yn datgelu unrhyw enwau. Dylid dychwelyd yr holiadur yn yr amlen gan nodi 'At sylw Dylan Bryn Roberts' i swyddfa Antur Aelhaearn cyn 17 Gorffennaf, os gwelwch yn dda.

Yn gywir/ Yours sincerely



**Dylan Bryn Roberts**

## Llanaelhaearn village residents

**28 June 2012**

Dear friends,

We've been appointed by Antur Aelhaearn to prepare a Business Plan for the renewal and development of Babell Chapel, Llanaelhaearn. As such we're eager to gather your views as village residents of the best use possible of the building. This can be done by completing the questionnaire with this letter (also available on [www.llanaelhaearn.com](http://www.llanaelhaearn.com) website). In addition a drop in session will be held at Babell Chapel between 3 and 8pm on Tuesday 17th July where you can share and discuss your ideas individually with us. Some Antur Aelhaearn members will also be present to discuss ideas with you.

We will respect the confidentiality of all completed questionnaires, and not disclose any names. Completed questionnaires should be returned in the envelope and addressed 'FAO Dylan Bryn Roberts' to Antur Aelhaearn office before 17 July, please.

# DYLAN BRYN Cyf

## HOLIADUR CAPELL BABELL CHAPEL QUESTIONNAIRE

Enw Name:	
Cyfeiriad Address:	
Rhif ffôn cyswllt Telephone contact details:	

1. Yn 2008 prynodd Antur Aelhaearn Capel Babelll gyda'r bwriad o'i addasu fel adeilad i'w ddefnyddio fel adnodd i'r gymuned leol. Ydych chi'n cefnogi'r bwriad yma?

**In 2008 Antur Aelhaearn purchased Babelll Chapel with the intention of renovating the building to be used as a resource for the local community. Do you support this intention?**

1. Ydw/Yes

2. Nac ydw (nodwch pam)/ No (state why)

2. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adeilad bydd angen gwneud cais am grantiau cyhoeddus. Ydych chi'n cefnogi'r bwriad yma?

**To make the best use possible of the building public grant applications will need to be submitted. Do you support this intention?**

1. Ydw/Yes

2. Nac ydw (nodwch pam)/ No (state why)

# DYLAN BRYN Cyf

3. Rhowch gylch o gwmpas y syniadau canlynol ar gyfer Capel Babel yr ydych chi yn eu cefnogi?

**Circle the following ideas for Babel Chapel which you support?**

Meithrinfa/ Nursery	Unedau Swyddfa/ Office Units	Ystafell gymunedol/ Community room	Gwersi nos/ Night classes	Arddangosfa hanes lleol/ Local history Exhibition	Gwerthu crefftau lleol/ Selling Local crafts
------------------------	------------------------------------	---	------------------------------	--	---

4. Os nad ydych yn cefnogi'r syniadau uchod, pa ddefnydd ymarferol a realistig gareth chi weld Antur Aelhaearn yn ei wneud o'r adeilad?

**If you do not support the above ideas what practical and realistic use would you like to see Antur Aelhaearn make of the building?**

5. Unrhyw sylwadau pellach?

**Any further comments?**

Dylid dychwelyd yr holiadur yn yr amlen gan nodi 'At sylw Dylan Bryn Roberts' i swyddfa Antur Aelhaearn, neu trwy e-bost at [Dylanbryn@yahoo.co.uk](mailto:Dylanbryn@yahoo.co.uk), cyn 17 Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Completed questionnaires should be returned in the envelope addressed 'FAO Dylan Bryn Roberts' to Antur Aelhaearn office or via email to [Dylanbryn@yahoo.co.uk](mailto:Dylanbryn@yahoo.co.uk) before 17 July, please.

Diolch yn fawr/ *Many thanks*